# CYNLLUN DEISEBAU CYNGOR BRO MORGANNWG

## Deisebau (gan gynnwys E-Ddeisebau)

Mae creu neu gymryd rhan mewn deiseb yn un ffordd i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn yr hyn a wna'r Cyngor. Mae'n caniatáu i bobl godi materion sy'n peri pryder, gan roi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid. Gyda golwg ar wneud cyflwyno deisebau yn haws, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfleuster e-ddeisebu.

Cyn cyflwyno deiseb (neu e-ddeiseb), dylech holi'ch Cynghorydd lleol yn gyntaf i weld a yw'r Cyngor eisoes yn gweithredu ar eich pryderon ac mai'r Cyngor yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn eich deiseb. Gellir gweld manylion Cynghorwyr Bro Morgannwg drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/councillors/Councillors.aspx

### Pwy all godi petisiwn?

Gall unrhyw un sy’n byw, gweithio neu astudio yn y Bwrdeistref Sirol lofnodi neu gyflwyno petisiwn, gan gynnwys y rhai o dan 18 oed. Gellir cyflwyno petisiynau gennych chi eich hun neu gan Gynghorydd.

Os byddwch yn creu deiseb, chi fydd y deisebydd 'arweiniol' a bydd gofyn i chi roi gwybodaeth bersonol sylfaenol i'r Cyngor fel y gallwn gysylltu â chi.
Gwybodaeth bersonol sylfaenol fydd:

Teitl
Enw llawn
Rhif Ffôn Cyswllt
Cyfeiriad e-bost
Cyfeiriad Post neu Enw'r Sefydliad/Cwmni
Cod post

## Cofrestru eich Manylion

Os ydych yn dymuno creu neu lofnodi e-ddeiseb bydd gofyn i chi fewngofnodi a chofrestru eich manylion gyda ni a rhoi gwybodaeth bersonol sylfaenol i ni, gan gynnwys eich cyfeiriadau post ac e-bost. Bydd hyn yn ein galluogi i wirio bod y 'llofnodion' a gesglir yn ddilys. Bydd angen i chi greu a chyflwyno cyfrinair i chi fewngofnodi.

I gwblhau'r broses gofrestru byddwch yn derbyn e-bost.

## Llofnodi E-Ddeiseb

Pan fyddwch wedi cofrestru bydd gofyn i chi fewngofnodi gan ddefnyddio'r manylion adnabod a'r cyfrinair rydych wedi'u cyflwyno. Yna, byddwch yn gallu llofnodi e-ddeiseb drwy ddefnyddio'r botwm Arwyddo Deiseb o dan yr e-ddeiseb berthnasol y mae gennych ddiddordeb ynddi.

Ar ôl ei llofnodi, anfonir e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gennych i gadarnhau bod eich llofnod wedi'i ychwanegu at yr e-ddeiseb.

Dim ond unwaith y byddwch yn gallu llofnodi deiseb.

## Beth sy'n digwydd pan fydd y ddeiseb (gan gynnwys e-ddeisebau) wedi'i chwblhau a sut y caiff ei chyflwyno?

I greu deiseb yn electronig, gallwch ddefnyddio'r cyfleuster e-ddeiseb ar-lein drwy'r ddolen ganlynol:

https://cymrydrhan.valeofglamorgan.gov.uk/cyflwyno-deiseb-neu-lofnodi-e-ddeiseb?next=/admin/sites/editors/home-page/live-preview

## Ni fydd ceisiadau yn cael eu derbyn o systemau deisebau ar-lein allanol eraill.

Fel arall, gallwch anfon deisebau wedi'u cwblhau yn electronig drwy e-bost: Democratic@valeofglamorgan.gov.uk

Neu i'r cyfeiriad post canlynol:
Y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y BARRI
CF63 4RU

Neu cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar 01446 709249 i wneud trefniadau i gyflwyno deiseb.

**Efallai y dymunwch gysylltu â Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod eich deiseb yn bodloni'r meini prawf a nodwyd uchod, cyn dechrau casglu arwyddion, gan mai dim ond deisebau derbyniol a ellir eu hystyried gan y Cyngor.**

## Dylai'r Prif Gynrychiolydd hysbysu Gwasanaethau Democrataidd os yw copi caled o'r ddeiseb i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r e-ddeiseb.

Bydd angen i'ch deiseb gynnwys:

- Teitl.
- Datganiad yn nodi'n benodol pa gamau yr hoffech i'r Cyngor eu cymryd.
- Unrhyw wybodaeth y teimlwch sy'n berthnasol i'r ddeiseba'r rhesymau pam eich bod yn
  ystyried bod angen cymryd y camau y gofynnir amdanynt. Gallwch gynnwys dolenni i
  wefannau perthnasol eraill ar e-ddeiseb.

Os byddwch yn cyflwyno e-ddeiseb, bydd angen y canlynol arnom:

- i wirio eich deiseb, yna ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym ond yn gwrthod deisebau nad ydynt yn bodloni'r safonau ar gyfer deisebau. Gall gymryd hyd at 7 diwrnod gwaith i'r Gwasanaethau Democrataidd wirio eich cais am e-ddeiseb a thrafod unrhyw faterion gyda chi, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r cais mewn da bryd.
- 
- dyddiad ar gyfer pryd y bydd eich e-ddeiseb yn rhoi'r gorau i gasglu llofnodion. Er mwyn cael yr effaith fwyaf, efallai yr hoffech bennu'r dyddiad hwn fel y bydd yr e-ddeiseb yn cael ei chyflwyno cyn unrhyw ddyddiad y bydd dadl yn cael ei chynnal neu benderfyniad yn cael ei wneud ar y mater. Byddwn yn lletya eich e-betyddiad am 120 diwrnod (sy'n cyfateb i 4 mis) o'r adeg y caiff yr e-betyddiad ei gyhoeddi ond byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf fod yn fyrrach na hyn.
- eich enw - fel deisebydd arweiniol,

Pan fydd e-ddeiseb yn cyrraedd ei dyddiad cau, ni fyddwch mwyach yn gallu

ei llofnodi ar-lein. Bydd y rhestr o lofnodwyr yn cael ei choladu gan y Gwasanaethau Democrataidd a chysylltir â'r deisebydd arweiniol ynghylch cyflwyno'r e-ddeiseb wedi'i chwblhau.

Rhaid i ddeisebau (gan gynnwys e-ddeisebau) gael eu llofnodi gan o leiaf 100 o bobl, ond bydd y Cyngor yn defnyddio ei ddisgresiwn pan fo llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle mae cefnogaeth leol glir i weithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi cyflwyno deiseb am fesurau gostegu traffig).

## Sut bydd y Cyngor yn ymateb i ddeiseb?

Yn dibynnu ar y pwnc a chyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor (neu yn ei absenoldeb, farn Dirprwy Swyddog Monitro'r Cyngor) gellir cyflwyno'r ddeiseb i gyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet neu Bwyllgor Craffu. Gall y Pwyllgor Craffu drafod y mater yn llawn a gwneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet, fel y bo'n briodol. Bydd y Prif Ddyfarnwr yn cael cyngor ymlaen llaw a fydd y ddeiseb yn cael ei hystyried gan Gyngor Llawn, y Cabinet neu Bwyllgor Craffu. Os yw i gael ei hystyried gan Bwyllgor Craffu, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn pennu pryd y caiff deiseb ei hystyried. Os bydd yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o Gyngor Llawn, bydd y Maer mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac/neu Swyddog Monitro, yn penderfynu pryd y caiff deiseb ei hystyried. Yn yr un modd, bydd Arweinydd Gweithredol mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac/neu Swyddog Monitro yn penderfynu pryd y caiff deiseb ei chyflwyno i gyfarfod y Cabinet.

Os cyflwynir y ddeiseb i Bwyllgor Craffu, gwahoddir y deisebydd arweiniol i ddod i'r cyfarfod a bydd yn cael cynnig y cyfle i gyflwyno'r ddeiseb, a fydd yn cynnwys crynodeb byr o dri munud ar yr hyn y mae'r ddeiseb yn ei olygu a faint o lofnodwyr sydd iddi. Fel arall, gall y deisebydd arweiniol ofyn i Gynghorydd gyflwyno'r ddeiseb (y Cynghorydd lleol fyddai hwn fel arfer). Os nad yw'r deisebydd arweiniol yn bresennol i gyflwyno'r ddeiseb, ac na ofynnwyd i'r Cynghorydd lleol gyflwyno ar ei ran, bydd y Cadeirydd yn darllen diben y ddeiseb a nifer y llofnodwyr. Yn dilyn y cyfarfod, anfonir ymateb at y deisebydd arweiniol o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cyfarfod a bydd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor.

Rhaid i unrhyw ddeiseb sy'n mynd yn uniongyrchol i'r Cyngor neu'r Cabinet gael ei chyflwyno gan Gynghorydd neu'r Aelod Cabinet â'r portffolio perthnasol.

## Pa faterion y gall fy neiseb ymwneud â hwy?

Dylai eich deiseb fod yn berthnasol i fater y mae gan y Cyngor bwerau drosto neu ddyletswyddau lle mae ganddo gyfrifoldebau cyflawni ar y cyd. Dylid ei gyflwyno hefyd mewn da bryd a bod yn weddus, yn onest ac yn barchus.

Efallai y caiff eich deiseb ei gwrthod os yw Swyddog Monitro'r Cyngor o'r farn ei bod:

- yn cynnwys iaith ddifeddwl, ymfflamychol, sarhaus neu gynhyrfus,
- yn ddifenwol, yn wamal, yn flinderus, yn wahaniaethol neu yn dramgwyddus mewn modd arall, neu yn cynnwys datganiadau ffug,

- yn rhy debyg i ddeiseb arall a gyflwynwyd o fewn y chwe mis diwethaf,
- yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, gan gynnwys gwybodaeth a ddiogelir gan orchymyn llys neu adran o'r llywodraeth,
- yn datgelu deunydd, sydd fel arall yn fasnachol sensitif,
- yn enwi unigolion, neu ddarparu gwybodaeth lle gellir eu hadnabod yn hawdd, e.e. swyddogion unigol cyrff cyhoeddus,
- yn gwneud cyhuddiadau troseddol,
- yn cynnwys datganiadau hysbysebu,
- yn cyfeirio at fater sy'n destun cwyn ffurfiol gan y Cyngor ar hyn o bryd, cwyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu unrhyw achos cyfreithiol,
- pan gyflwynir deiseb mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor, caiff y ddeiseb ei chydnabod fel rhan o'r broses honno a chaiff ei hystyried ynghyd ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad. Ni fydd y Cyngor o reidrwydd yn ymateb i'r ddeiseb ar wahân yn yr achos hwn,
- yn ymwneud â deisebau statudol, neu ddeisebau sy'n ymwneud â Refferenda Awdurdodau Lleol sy'n dod o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001,
- yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio neu drwyddedu'r Cyngor gan fod prosesau statudol ar wahan ar waith ar gyfer ymdrin â'r materion hyn, ac
- nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y Cyngor bwerau drosto neu ddyletswyddau lle mae ganddo gyfrifoldebau cyflawni ar y cyd.

Os penderfynwn nad yw deiseb yn dderbyniol, byddwn yn rhoi gwybod i drefnydd y ddeiseb am ein rhesymau. Bydd hyn yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Bydd teitl a thestun y ddeiseb yn cael eu cyhoeddi ar-lein fel rhan o'r rhestr o ddeisebau na ellir eu derbyn, ynghyd ag esboniad ynghylch pam nad oedd modd ei derbyn.

Yn ystod cyfnodau gwleidyddol sensitif, megis cyn etholiad, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddeunydd sy'n wleidyddol ddadleuol.
Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am yr e-ddeisebau ar ei wefan. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr e-ddeisebau o reidrwydd yn adlewyrchu rhai'r Cyngor. Os yw eich deiseb yn ymwneud â mater sydd y tu hwnt i bwerau'r Cyngor i fynd i'r afael â nhw, efallai y byddai'n fwy priodol dechrau e-ddeiseb ar wefan Senedd Cymru. Gellir cael cyngor ar dderbynioldeb e-ddeisebau gan Gwasanaethau Democrataidd.

**Bydd y cynllun deiseb hwn yn cael ei adolygu unwaith ym mhob cylch etholiadol, gyda unrhyw addasiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor pan fo'n briodol.**

DS. Cyhoeddir y cynllun gan roi sylw i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Beth allaf ei wneud os teimlaf nad ymdriniwyd â'm deiseb yn iawn?

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi delio â'ch deiseb yn iawn, mae gan drefnydd y ddeiseb yr hawl i ofyn am adolygiad o'r camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd yn ymateb i'ch deiseb. Os ystyriwyd eich deiseb a bod Swyddogion wedi rhoi ymateb,

anfonwch eich pryderon at y Cyngor drwy Broses Cwynion Corfforaethol y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Yn ogystal, mae gennych yr hawl i godi cwyn gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Hysbysiad Preifatrwydd

(Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn atodol i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor sydd â dolen iddo isod)

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Mae Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn darparu cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer system Bwyllgorau'r Cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol. Yn benodol mae'n:

- Trefnu ac amserlennu cyfarfodydd,
- Yn penderfynu a fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus,
- Yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyfarfod,
- Yn gwahodd unigolion i fynychu,
- Yn ymdrin â gohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Yn ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Yn cymryd cofnodion y cyfarfod perthnasol,
- Yn cyhoeddi agendâu a chofnodion,
- Yn delio ag unrhyw fater arall sy'n berthnasol i fusnes y cyfarfod,
- Yn trefnu i gadw dogfennau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

Yng nghyd-destun yr hysbysiad hwn mae'r gair cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfarfodydd y Cyngor
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Cyngor
- Pwyllgor Craffu
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau Craffu'r Cyngor
- Pwyllgor Apeliadau Addysg
- Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio
- Unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n cael eu cynorthwyo gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

Er mwyn hyrwyddo Llywodraeth a Democratiaeth agored cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac yn unol â hynny bydd unrhyw beth a drafodir yn y cyfarfodydd hynny yn gyhoeddus a bydd unrhyw gofnodion, recordiadau neu we-ddarllediadau hefyd yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae yna rai amgylchiadau lle nad

yw'n briodol i faterion gael eu trafod yn gyhoeddus, er enghraifft busnes personol unigolion neu wybodaeth sy'n sensitif yn ariannol/fasnachol. Bydd agenda'r cyfarfod yn egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin.

Yn unol â hynny, os ydych:

- yn cyflwyno gwybodaeth i'w thrafod mewn Pwyllgor, neu
- yn mynychu Pwyllgor er mwyn siarad, neu
- yn cyflwyno dogfennau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno deiseb i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno sylwadau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno neu'n darparu dogfennau / deisebau ar ran eraill.

Ymdrinnir â'r wybodaeth hon yn agored ac yn gyhoeddus oni bai nad yw'r cyfarfod, neu ran o'r cyfarfod, sy'n ei drafod yn gyfarfod cyhoeddus yn unol â'r darpariaethau eithrio gwybodaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Os ydych yn cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti mae angen i chi sicrhau eu bod yn deall yr uchod a **chydsynio** i'w gwybodaeth gael ei rhoi yn y parth cyhoeddus. Gall y Cyngor ofyn i chi gadarnhau hyn ac efallai na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi ymhellach oni bai ein bod yn fodlon bod trydydd partïon wedi cael gwybod am hyn.

**Sut rydym yn casglu gwybodaeth gennych?**

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych pan fyddwch yn ymweld â https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx. Hefyd, pan fyddwch yn cysylltu â ni yn ysgrifenedig, yn siarad â ni ar y ffôn, yn danfon e-bost neu'n siarad â ni wyneb yn wyneb.

**Pa fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu gennych?**

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor brosesu rhan neu gyfan o bob un o'r categorïau gwybodaeth bersonol a ganlyn ynghylch aelodau'r cyhoedd neu aelodau etholedig:

- Enw a theitl
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Sylwadau sy'n ymwneud â busnes y Cyngor
- Gofynion arbennig er mwyn mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys siarad yn Gymraeg

**Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Yn unol â'n tasgau cyhoeddus mae'r canlynol yn berthnasol:

- I'w defnyddio yn y cyfarfod fel y nodir uchod,
- Wrth weithredu fel Deisebydd Arweiniol ar gyfer cyflwyno deiseb neu greu e-ddeiseb gan ddefnyddio cyfleuster electronig Bro Morgannwg,
- Wrth ychwanegu eich llofnod/gwybodaeth bersonol at ddeiseb neu e-ddeiseb,
- Wrth gofrestru i siarad mewn pwyllgorau, bydd manylion aelodau'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor.
- Gellir rhannu unrhyw gofrestriadau i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor ac unrhyw wybodaeth a gyflwynir i gynghorwyr a Gwasanaethau Democrataidd gyda swyddogion y cyngor a phartneriaid cysylltiedig (e.e. sefydliadau y mae'r Cyngor yn cydweithio â hwy i ddarparu gwasanaethau) i dderbyn eu sylwadau a'u hystyriaeth broffesiynol.
- Gellir cadw unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a ddaw i law ar ffeil er mwyn i'r Cyngor gyfeirio ati yn y dyfodol.
- Galluogi Aelodau neu swyddogion y Cyngor i ymchwilio neu gynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallech fod wedi'u codi. Hefyd, fel y gallwn roi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau.
- Cyfeirio eich sylwadau cyhoeddus ar draws Pwyllgorau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Os rhoddir eich caniatâd datganedig, rhannwch gydag aelodau eraill o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad er mwyn enwebu siaradwr.

**Pwy all weld eich gwybodaeth?**

Fel arfer byddwn ond yn rhannu data personol gyda staff Cyngor Bro Morgannwg neu Aelodau Etholedig sydd ei angen i gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, os caiff ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn dibynnu ar nifer o eithriadau, sy'n ein caniatáu i rannu gwybodaeth heb fod angen nodi sail gyfreithlon ar gyfer y rhannu a heb fod angen rhoi gwybodaeth i chi am y rhannu.

**Seiliau cyfreithiol**

Dyma ein **seiliau cyfreithiol** ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol:

- Caniatâd.
- Os yw'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a freiniwyd ynom.

- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu fuddiannau unigolyn arall.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

## Beth yw'ch hawliau o ran y data personol rydym yn ei brosesu?

Mae hawliau'n cynnwys:

- **Mynediad** – gallwch ofyn am gopïau o unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gan y Cyngor.
- **Cywiro** - gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.
- **Dileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol. Gall y Cyngor wrthod dileu gwybodaeth os oes gennym reswm cyfreithiol dros ei chadw.
- **Hygludedd** – gallwch ofyn i ni drosglwyddo eich data personol i wahanol wasanaethau neu atoch chi.
- **Hawl i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu arno** – mae gennych yr hawl i wrthwynebu sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- **Hawl i atal penderfyniadau awtomatig** – mae gennych yr hawl i herio penderfyniad sy'n effeithio arnoch sydd wedi'i wneud yn awtomatig heb ymyrraeth gan fod dynol.

## Am faint y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw a dileu'r holl gofnodion yn unol â'n hamserlen cadw cofnodion. Cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Democrataidd ar 01446 709 855 neu Democratic@valeofglamorgan.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## Pa fesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei cholli, ei newid neu'i chamddefnyddio?

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu data a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei newid neu ei llygru, a rhag mynediad heb ei awdurdodi. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig a rheoliadol ar waith i ddiogelu'r

wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch unrhyw wybodaeth rydych yn ei hanfon atom. Rydym yn argymell eich bod yn cymryd pob cam posib i warchod eich gwybodaeth bersonol.

## Gwe-ddarlledu

Nodwch y bydd rhai o gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu gwe-ddarlledu, byddwch yn cael gwybod ar lafar os bydd y cyfarfod rydych yn mynychu yn cael ei we-ddarlledu. Os digwydd hynny, mae hyn yn golygu y cewch eich cofnodi'n weledol ac mewn sain ac y bydd ar gael ar y rhyngrwyd. Gwneir hyn at ddibenion cefnogi a hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a budd y cyhoedd. Byddwn yn cadw'r data am 6 blynedd ac yna'n ei gynnig i'r Archifydd yn Archifdy Morgannwg ar gyfer cadw'n barhaol. Mae gennych hawl i wneud cais i gael mynediad at, i gywiro, i gyfyngu, i wrthwynebu neu i ddileu'r data hwn.

## Cwynion

Os hoffech wneud cwyn am y defnydd o'ch data personol gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

**Drwy'r post:** Uned Rhyddid Gwybodaeth

Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU.

**Dros y ffôn:** 01446 700111.

**Drwy e-bost:** DPO@valeofglamorgan.gov.uk

I gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd a materion rhannu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth (CG) yn www.ico.org.uk